
YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

Tymor y Gwanwyn (ii) 2020 – Dosbarth Bl 1 a 2 Mrs Williams, Mr Jones a Mrs Evans

# Bant â ni i gynllunio!




Pa ddathliadau sy'n digwydd mewn gwledydd eraill?
Sebastian

Dysgu am ddathliadau yng Nghymru!

Pawb

Cynnal gŵyl ein hunain!

Charlie a Bethany

Gwrando ar gerddoriaeth carnifal!

Pam mae gwahanol ddathliadau yn digwydd?

Daniel

Gwisgo dillad ffansi!

Bella

YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor y Gwanwyn (ii) 2020 – Dosbarth Bl 1 a 2 Mrs Williams, Mr Jones a Mrs Evans

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBrynymor1**

## Thema'r tymor yw: **Hwyl a Gŵyl!**

## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Y Dyniaethau**

- Dysgu am ystod o garnifalau a dathliadau yng Nghymru ac o gwmpas y byd—dewis un i'w astudio mewn mwy o fanylder
- Dysgu am hanes Dewi Sant a Gŵyl Y Pasg.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Datblygu sgiliau colaj a mwynhau astudio ac efelychu gwaith artist enwog.
- Dysgu caneuon newydd, gwrando ar gerddoriaeth garnifal a chwarae patrymau ar offerynnau taro. Cyfansoddi cerddoriaeth, gan ddefnyddio offerynnau taro ac ap addas e.e. *Garage Band*.
- Datblygu ein sgiliau perfformio.

**Iechyd a Lles**

- Ymarfer a datblygu ein sgiliau corfforol a pharhau i wella ein ffitrwydd.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.
- Mwynhau'r syniad o berthyn i'n cymuned leol ac i Gymru.
- Mwynhau darganfod ynglŷn â sut y mae pobl mewn gwahanol lefydd yn y byd yn byw.
- Datblygu dealltwriaeth o sut y gallwn fod yn ffrind da a gwneud gwahaniaeth i eraill.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener. Rhaid i ni geisio ei ddychwelyd ar ddydd Llun.

Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Bl.2)

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Parhau i ddysgu sut i gadw'n ddiogel ar y we a dysgu sut i ddanfon cyfathrebiad ar-lein syml.
- Cynllunio ac adeiladu amrywiol adeiladau a gwrthrychau gan ddefnyddio offer o bob math.
- Cynllunio a chreu mwgwd/penwisg ar gyfer carnifal.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Creu cornel chwarae 'Siop Lluniau Llon' a mwynhau gwisgo i fyny, trafod arian a bod yn ffotograffwyr proffesiynol!
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan gynnwys **esboniad ac ail-adrodd straeon**.
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio a thynnu, cyfri mewn camau lluosi a rhannu.
- Defnyddio arian ac ymarfer rhoi newid.
- Datblygu ein sgiliau darllen y cloc.
- Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen.

**Ymweliadau**

Gweithdy Rhythm
27/2/20